

TGAU



CBAC TGAU
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

Ffynonellau Doethineb ac Awdurdod Uned 2 a 3 Cristnogaeth

Uned 2 Rhan A

Cristnogaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

Credoau a dysgeidiaethau craidd

Credoau

Y Beibl

Deuteronomium 4: 1-2

Annog ufudd-dod

4 Yn awr, O Israel, gwranddo ar y deddfau a'r cyfreithiau yr wyf yn eu dysgu ichwi heddiw; cadwch hwy er mwyn ichwi gael byw a mynd i feddiannu'r wlad y mae'r Arglwydd, Duw eich hynafiaid, yn ei rhoi ichwi. ² Peidiwch ag ychwanegu dim at yr hyn yr wyf yn ei orchymyn ichwi, nac ychwaith dynnu oddi wrtho, ond cadw at orchmynion yr Arglwydd eich Duw yr wyf fi yn eu gorchymyn ichwi.

2 Timotheus 3: 16-17

¹⁶ Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywiro, a disgyblu mewn cyfiawnder. ¹⁷ Felly y darperir pob un sy'n perthyn i Dduw â chyflawn ddarpariaeth ar gyfer pob math o weithredoedd da.

Rhufeiniaid 2: 14-15

¹⁴ Pan yw Cenhedloedd sydd heb y Gyfraith yn cadw gorchmynion y Gyfraith wrth reddf, y maent, gan eu bod heb y Gyfraith, yn gyfraith ynddynt eu hunain. ¹⁵ Y maent yn dangos bod yr hyn a ofynnir gan y Gyfraith wedi ei ysgrifennu yn eu calonnau, gan fod eu cydwybod yn cyd-dystiolaethu â'r Gyfraith, ac felly y mae eu meddyliau weithiau'n eu cyhuddo, ac weithiau hefyd yn eu hamddiffyn.

Bywyd ar ôl Marwolaeth

Cred mewn bywyd ar ôl marwolaeth

Ioan 3:16

¹⁶ Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â

mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 11: 25-26

²⁵ Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; ²⁶ a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?"

Barn, cyfrifoldeb am weithredoedd

Mathew 25: 31-46

Y defaid a'r geifr

³¹ "Pan ddaw Mab y Dyn yn ei ogoniant, a'r holl angylion gydag ef, yna bydd yn eistedd ar orsedd ei ogoniant. ³² Fe gesglir yr holl genhedloedd ger ei fron, a bydd ef yn eu didoli oddi wrth ei gilydd, fel y mae bugail yn didoli'r defaid oddi wrth y geifr, ³³ ac fe esyd y defaid ar ei law dde a'r geifr ar y chwith.

³⁴ Yna fe ddywed y Brenin wrth y rhai ar y dde iddo, "Dewch, chwi sydd dan fendith fy Nhad, i etifeddu'r deyrnas a baratowyd ichwi er seiliad y byd. ³⁵ Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod i mi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref; ³⁶ bûm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf, bûm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bûm yng ngharchar a daethoch ataf."

³⁷ Yna bydd y rhai cyfiawn yn ei ateb: "Arglwydd, " gofynnant, "pryd y'th welsom di'n newynog a'th borthi, neu'n sychedig a rhoi diod i ti? ³⁸ A phryd y'th welsom di'n ddieithr a'th gymryd i'n cartref, neu'n noeth a rhoi dillad amdanat? ³⁹ Pryd y'th welsom di'n glaf neu yng ngharchar ac ymweld â thi?"

⁴⁰ 'A bydd y Brenin yn eu hateb, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyf, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch."

⁴¹ 'Yna fe ddywed wrth y rhai ar y chwith, "Ewch oddi wrthyf, chwi sydd dan felltith, i'r tân tragwyddol a baratowyd i'r diafol a'i angylion. ⁴² Bûm yn newynog ac ni roesoch fwyd imi, bûm yn sychedig ac ni roesoch ddiod imi; ⁴³ bûm yn ddieithr ac ni chymerasoch fi i'ch cartref, yn noeth ac ni roesoch ddillad amdanaf, yn glaf ac yng ngharchar ac nid ymwelsoch â mi."

⁴⁴ Yna atebant hwythau: "Arglwydd,," gofynnant, pryd y'th welsom di'n newynog neu'n sychedig neu'n ddieithr neu'n noeth neu'n glaf neu yng ngharchar heb weini arnat?"

⁴⁵ 'A bydd ef yn eu hateb, "Yn wir, rwy'n dweud wrthyf, yn gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith."

⁴⁶ Ac fe â'r rhain ymaith i gosb dragwyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol."

Atgyfodiad

1 Corinthiaid 15: 20-22

²⁰ Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno. ²¹ Gan mai trwy ddyn y daeth marwolaeth, trwy ddyn hefyd y daeth atgyfodiad y meirw. ²² Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist.

Nefoedd ac Uffern

Ioan 14: 1-4

Iesu'n cysuro'i ddisgyblion

14 Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw; a chredwch ynof finnau. ² Yn nhŷ fy nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthy'ch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? ³ Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi. ⁴ Fe wyddoch y ffordd i'r lle'r wyf fi'n mynd.

Luc 16: 19-31

Y dyn cyfoethog a Lasarus

¹⁹ 'Yr oedd dyn cyfoethog oedd yn arfer gwisgo porffor a lliain main, ac yn gwledda'n wych bob dydd.

²⁰ Wrth ei ddrws gorwedda'i dyn tlawd, o'r enw Lasarus, yn llawn cornwydydd ²¹ ac yn dyheu am wneud pryd o'r hyn a syrthiai oddi ar fwrdd y dyn cyfoethog. Byddai cŵn yn dod ato ac yn llyfu'r briwiau agored ar ei gorff.

²² 'Bu farw'r dyn tlawd, a dygwyd ef ymaith gan yr angylion i wledda wrth ochr Abraham. Bu farw'r dyn cyfoethog yntau, a chladdwyd ef. ²³ Yn Hades, ac yntau mewn poen arteithiol, cododd ei lygaid a gweld Abraham o bell, a Lasarus wrth ei ochr. ²⁴ A galwodd, "Abraham, fy nhad, trugarha wrthyf: anfon Lasarus i wlychu blaen ei fys mewn dŵr ac i oeri fy nhafod, oherwydd yr wyf mewn ingoedd yn y tân hwn."

²⁵ "Fy mhlentyn,' meddai Abraham, 'cofia iti dderbyn dy wynfyd yn ystod dy fywyd, a Lasarus yn yr un modd ei adfyd: yn awr y mae ef yma yn cael ei ddiddanu, a thithau yn dioddef mewn ingoedd. ²⁶ Heblaw hyn oll, rhyngom ni a chwi y mae agendor llydan wedi ei osod, rhag i neb a ddymunai hynny groesi oddi yma atoch chwi, neu gyrraedd oddi yna atom ni."

²⁷ 'Atebodd ef, "Os felly, fy nhad, rwy'n erfyn arnat ei anfon ef i dŷ fy nhad, ²⁸ at y pum brawd sydd gennyf, i'w rhybuddio am y cyfan rhag iddynt hwythau ddod i'w harteithio yn y lle hwn."

²⁹ 'Ond dywedodd Abraham, "Y mae Moses a'r proffwydi ganddynt; dylent wrando arnynt hwy."

³⁰ "'Nage, Abraham, fy nhad,' atebodd ef, 'ond os â rhywun atynt oddi wrth y meirw, fe edifarhânt."

³¹ 'Ond meddai ef wrtho, "Os nad ydynt yn gwrandao ar Moses a'r proffwydi, yna ni chânt eu hargyhoeddi hyd yn oed os atgyfoda rhywun o blith y meirw."

Arferion

Taith Bywyd

Marc 1: 9-11

Bedyddio a phrofi Iesu

⁹ Yn y dyddiau hynny daeth Iesu o Nasareth Galilea, a bedyddiwyd ef yn afon Iorddonen gan Ioan. ¹⁰ Ac yna, wrth iddo godi allan o'r dŵr, gwelodd y nefoedd yn rhwygo'n agored a'r Ysbryd fel colomen yn disgyn arno. ¹¹ A daeth llais o'r nefoedd: "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu."

1 Corinithiaid 11: 23-26

²³ Oherwydd fe dderbyniais i oddi wrth yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi: ... i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymryd bara; ²⁴ ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd, a dweud, 'Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf.' ²⁵ Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan, ar ôl swper, gan ddweud, 'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfych ef, er cof amdanaf.' ²⁶ Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw.

Actau 2: 1-13

Yr Ysbryd Glân yn dod yn y Pentecost

2 Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle, ² ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. ³ Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; ⁴ a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt.

⁵ Yr oedd yn preswyllo yn Jerwsalem Iddewon, pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef; ⁶ ac wrth glywed y sŵn hwn fe ymgasglodd tyrfa ohonynt, ac yr oeddent wedi drysu'n lân am fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn ei iaith ei hun. ⁷ Yr oeddent yn synnu ac yn rhyfeddu, ac yn dweud: "Onid

Galileaid yw'r rhain oll sy'n llefaru? ⁸ A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun, iaith ei fam? ⁹ Parthiaid a Mediaid ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, Jwdea a Capdocia, Pontus ac Asia [b] ¹⁰ Phrygia a Pamffylia, yr Aifft a pharthau Libya tua Cyrene, a'r ymwelwyr o Rufain, yn Iddewon a phroeslytiaid, ¹¹ Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym yn eu clywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw." ¹² Yr oedd pawb yn synnu mewn penbleth, gan ddweud y naill wrth y llall, "Beth yw ystyr hyn?"

¹³ Ond yr oedd eraill yn dweud yn wawdlyd, "Wedi meddwi y maent."

Marc 10: 7-9

⁷ "Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn glynu wrth ei wraig, ⁸ a bydd y ddau yn un cnawd." Gan hynny nid dau mohonynt mwyach, ond un cnawd. ⁹ Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, peidied neb ei wahanu."

Mannau Arbennig

Hebreaid 10: 24-25

²⁴ Gadewch inni ystyried sut y gallwn ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da, ²⁵ heb gefnu ar ein cydgynulliad ein hunain, yn ôl arfer rhai, ond annog ein gilydd, ac yn fwy felly yn gymaint â'ch bod yn gweld y Dydd yn dod yn agos.

Mathew 18:20

²⁰ Oherwydd lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol."

Rhan B

Thema 1: Materion Perthnasoedd o safbwynt Cristnogol

Thema 1: Perthnasoedd

Perthnasoedd

Marc 10: 6-8

⁶ “Ond o ddechreuad y greadigaeth, “yn wryw a benyw y gwnaeth Duw hwy”. ⁷ Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei fam ac yn glynu wrth ei wraig, ⁸ a bydd y ddau yn un cnawd.” Gan hynny nid dau mohonynt mwyach, ond un cnawd.

Mathew 19: 8-9

⁸ Atebodd ef hwy, “Oherwydd eich ystyfnigrwydd y rhoddodd Moses ganiatâd ichwi i ysgaru eich gwragedd, ond nid felly yr oedd o’r dechreuad. ⁹ Rwy’n dweud wrthych, pwy bynnag sy’n ysgaru ei wraig, ond am anffyddlondeb, ac yn priodi un arall, y mae’n godinebu.

Marc 10:9

⁹ Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, peidied neb ei wahanu.

Perthnasoedd rhywiol

Lefiticus 20:13 (yn hytrach na Lefiticus 20:3)

¹³ Os bydd dyn yn gorwedd gyda dyn fel gyda gwraig, y mae’r ddau wedi gwneud ffieidd-dra. Y maent i’w rhoi i farwolaeth, ac y maent yn gyfrifol am eu gwaed eu hunain.

1 Timotheus 1: 8-10

⁸ Fe wyddom fod y gyfraith yn beth ardderchog os caiff ei harfer yn briodol fel cyfraith. ⁹ Y mae’r gyfraith wedi ei llunio, nid ar gyfer y sawl sy’n cadw’r gyfraith ond ar gyfer y rheini sy’n ei thorri a’i herio, sef yr annuwiol a’r pechadurus, y digrefydd a’r di-dduw, y rhai sy’n lladd tad a mam, yn llofruddio, ¹⁰ yn puteinio, yn ymlygru â’u rhyw eu hunain, yn herwgipio, yn dweud celwydd, yn tyngu ar gam, ac yn gwneud unrhyw beth arall sy’n groes i’r athrawiaeth iach.

Materion cydraddoldeb: rhagfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw

1 Timotheus 2: 11-12

¹¹ Rhaid i wragedd gymryd eu dysgu yn dawel gan lwyr ymostwng. ¹² Ac nid wyf yn caniatáu i wragedd hyfforddi, nac awdurdodi ar y gwŷr; eu lle hwy yw bod yn dawel.

Galatiaid 3: 27-29

²⁷ Oherwydd y mae pob un ohonoch sydd wedi ei fedyddio i Grist wedi gwisgo Crist amdano. ²⁸ Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chwi oll yng Nghrist Iesu. ²⁹ Ac os ydych yn eiddo Crist, yna had Abraham ydych, etifeddion yn ôl yr addewid.

Thema 2:Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Genesis 1: 26-27

²⁶ Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear."

²⁷ Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun;

ar ddelw Duw y creodd ef;

yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy.

Rhagfarn a gwahaniaethu

Galatiaid 3: 27-29

²⁷ Oherwydd y mae pob un ohonoch sydd wedi ei fedyddio i Grist wedi gwisgo Crist amdano. ²⁸ Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chwi oll yng Nghrist Iesu. ²⁹ Ac os ydych yn eiddo Crist, yna had Abraham ydych, etifeddion yn ôl yr addewid.

Materion cyfoeth a thlodi

Luc 16: 19-31

Y dyn cyfoethog a Lasarus

¹⁹ 'Yr oedd dyn cyfoethog oedd yn arfer gwisgo porffor a lliain main, ac yn gwledda'n wych bob dydd.

²⁰ Wrth ei ddrws gorweddaid dyn tlawd, o'r enw Lasarus, yn llawn cornwydydd²¹ ac yn dyheu am wneud pryd o'r hyn a syrthiai oddi ar fwrdd y dyn cyfoethog; ac yn wir byddai'r cŵn yn dod i lyfu ei gornwydydd.

²² 'Bu farw'r dyn tlawd, a dygwyd ef ymaith gan yr angylion i wledda wrth ochr Abraham. Bu farw'r dyn cyfoethog yntau, a chladdwyd ef. ²³ Yn Hades, ac yntau mewn poen arteithiol, cododd ei lygaid a gweld Abraham o bell, a Lasarus wrth ei ochr. ²⁴ A galwodd, "Abraham, fy nhad, trugarha wrthyf: anfon Lasarus i wlychu blaen ei fys mewn dŵr ac i oeri fy nhafod, oherwydd yr wyf mewn ingoedd yn y tân hwn."

²⁵ "Fy mhlentyn,' meddai Abraham, 'cofia iti dderbyn dy wynfyd yn ystod dy fywyd, a Lasarus yn yr un modd ei adfyd: yn awr y mae ef yma yn cael ei ddiddanu, a thithau yn dioddef mewn ingoedd. ²⁶ Heblaw hyn oll, rhyngom ni a chwi y mae agendor llydan wedi ei osod, rhag i neb a ddymunai hynny groesi oddi yma atoch chwi, neu gyrraedd oddi yna atom ni."

²⁷ 'Atebodd ef, "Os felly, fy nhad, rwy'n erfyn arnat ei anfon ef i dŷ fy nhad, ²⁸ at y pum brawd sydd gennyf, i'w rhybuddio am y cyfan rhag iddynt hwythau ddod i'w harteithio yn y lle hwn."

²⁹ 'Ond dywedodd Abraham, "Y mae Moses a'r proffwydi ganddynt; dylent wrando arnynt hwy."

³⁰ "'Nage, Abraham, fy nhad,' atebodd ef, 'ond os â rhywun atynt oddi wrth y meirw, fe edifarhânt."

³¹ 'Ond meddai Abraham, "Os nad ydynt yn gwrandao ar Moses a'r Proffwydi, yna ni chânt eu hargyhoeddi hyd yn oed os atgyfoda rhywun o blith y meirw."

Cymorth Cristnogol

<https://www.christianaid.org.uk/>